



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board


Gwybodaeth i Gleifion

Enwaediad

Yr Adran Wroleg

Beth yw enwaediad?

Triniaeth i waredu'r blaengroen gan adael pen y pidyn ar ddangos. Gwneir hyn fel arfer os yw'r blaengroen wedi mynd yn dynn gan ei wneud yn anodd ei dynnu'n ôl a golchi o dan, yn achosi poen yn ystod cyfathrach rywiol neu mae'r croen wedi'i dorri ac yn brifo.



Beth yw'r dewisiadau eraill?

Eli lleol a golchi (gan gynnwys defnydd eli steroid am gyfnod byr) - ar gyfer ffitosis (blaengroen tyn), gall yr uchod leihau'r lliid a gwella'r tyndra a bydd y symptomau yn aml yn dod yn ôl ar ôl atal y driniaeth. Nid ydynt yn addas nac yn effeithiol ym mhob achos a gall eich wrolegydd eich cynghori yn ôl yr angen. Bydd angen enwaediad fel arfer pan fydd moddion lleol yn methu.

Beth yw buddion y llawdriniaeth hon?

Mae'n caniatáu glanhau o amgylch y pen gan leihau'r risg o haint. Mae'n datrys problemau poen ac anghysur a all fod gennych oherwydd y blaengroen tyn.

Beth fydd yn digwydd cyn fy llawdriniaeth?

Gofynnir ichi fynd i glinig cyn derbyn i'r ysbyty i sicrhau eich bod yn ddigon iach i gael eich llawdriniaeth a bydd nyrs arbenigol neu feddyg yn trafod y llawdriniaeth â chithau. Os byddwch yn hapus i gael y driniaeth, gofynnir ichi lofnodi ffurflen gydsynio.

Cewch eich derbyn yn yr ysbyty ar ddiwrnod eich llawdriniaeth. Gofynnir ichi gael cawod a gwisgo gŵn. Bydd nyrs o'r ward yn eich hebrwng i'r theatr lle cewch anesthetig lleol neu gyffredinol.

Beth mae'r llawdriniaeth yn ei olygu?

Gellir gwneud y llawdriniaeth dan anesthetig lleol (sy'n gwneud yr ardal yn ddideimlad) neu anesthetig cyffredinol (a fydd yn gwneud ichi gysgu) neu sbinol (sy'n eich gwneud yn ddideimlad o'r gwasg i lawr).

Tua 20-30 munud yw hyd y llawdriniaeth. Gwaredir y blaengroen a chaiff gweddill y croen ei bwytho wrth waelod y pen.

- **Anesthetig Cyffredinol/Sbinol** – Gofynnir ichi beidio â bwyta nac yfed unrhyw hylifau nad ydynt yn glir e.e. cawl, llaeth ac ati, am 6 awr cyn eich llawdriniaeth. Gallwch dderbyn hylifau clir (dŵr/diodydd ffrwythau) Hyd at 2 awr cyn eich llawdriniaeth. Ar ôl hyn, gofynnir ichi beidio ag yfed mwyach. **Os ydych yn dioddef o glefyd y siwgr ac yn dibynnu ar inswlin neu os ydych yn cymryd unrhyw wrthgeulyddion (moddion sy'n teneuo'r gwaed), bydd angen ichi gael cyfarwyddyd arbennig, trafodwch hyn â'ch nyrs.**
- **Anesthetig lleol** – gallwch fwyta ac yfed fel arfer.

Cewch gyngor ynglŷn â pha rai o'ch meddyginiaethau arferol (tabledi) y dylech eu cymryd a pha rai na ddylech cyn eich llawdriniaeth.

Gofynnwch am hyn os na chewch gyngor.

A oes unrhyw ôl-ffeithiau?

Mae'r ôl-ffeithiau posib a'ch risg o'u cael wedi eu nodi isod. Mae rhai yn hunan-gyfyngedig neu maent yn gildroadwy, ond dydi rhai eraill ddim. Nid ydym wedi rhestru'r ôl-ffeithiau prin iawn (sy'n digwydd mewn llai nag 1 o bob 250 claf) ar wahân. Gall effaith yr ôl-ffeithiau hyn amrywio llawer o un claf i'r llall; dylech ofyn i'ch llawfeddyg am gyngor am y risgiau a'u heffaith arnoch fel unigolyn:

Risg o ôl-effeithiau

Pidyn wedi chwyddo a all bara am rai diwrnodau -
Pob claf

Sensitifrwydd pen eich pidyn wedi'i gynyddu a all bara am hyd at
bythefnos -
Bron bob claf

Teimlad ym mhen eich pidyn wedi ei newid neu leihau yn barhaol -
Bron bob claf

Haint ar y toriad sydd angen gwrthfotigau neu lawdriniaeth draenio -
rhwng 1 o bob 50 ac 1 o bob 100 o gleifion (1-2%)

Clwyf yn gwaedu, gan ofyn weithiau am driniaeth bellach --
Rhwyng 1 o bob 50 ac 1 o bob 100 o gleifion (1-2%)

Anfodlonrwydd ar y canlyniad cosmetig -
Rhwyng 1 o bob 50 ac 1 o bob 250 o gleifion

Edema (chwydd) ar y croen ychwanegol sydd angen llawdriniaeth
ychwanegol a gwaredu croen -
Rhwyng 1 o bob 50 ac 1 o bob 250 o gleifion

Caniatâd am gyflawni biopsi ar yr ardal afreolaidd os oes amheuaeth
am ganser a'r angen i waredu'r croen ychwanegol yn nes ymlaen.

A oes rhaid imi aros yn yr ysbyty dros nos?

Nac oes. Os perfformir y driniaeth dan anesthetig lleol, gallwch fynd
adref ar ôl awr, unwaith byddwch yn teimlo'n iawn. Os gwneir eich
triniaeth dan anesthetig cyffredinol, bydd hyn yn achos dydd yn bennaf
ond bydd angen ichi drefnu cael eich casglu gan rywun a bod gyda chi
am 24 awr ar ôl eich llawdriniaeth.

A fyddaf yn teimlo poen wedyn?

Efallai byddwch yn teimlo ychydig o boen/anghysur am yr ychydig o
ddiwrnodau cyntaf. Gellir rheoli hyn fel arfer gyda phoenladdwyr. Os
cewch anesthetig sbinol, bydd angen ichi aros nes y dychwela teimlad
yn eich coesau. Sicrhewch fod rhywun gyda chi pan fyddwch yn codi
gyntaf.

Pryd bydd angen tynnu'r pwythau allan?

Mae'r pwythau yn toddi ar ôl oddeutu 2 wythnos felly ni fydd angen eu tynnu.

A fydd angen cael apwyntiad olynol?

Os oes angen ichi gael apwyntiad olynol, cewch wybod cyn ichi adael.

Gwybodaeth Rhyddhau

- Gallwch fwyta ac yfed fel arfer.
- Dylech osgoi unrhyw weithgareddau/ymarferion y gallwch fwrw'r pidyn wrth eu cyflawni.
- Gwisgwch drôns diogelu am y 2-3 wythnos gyntaf - bydd hyn yn helpu i leihau chwyddo.
- Cadwch yr ardal yn lân. Gallwch gael cawod y diwrnod wedyn, ond tarwch yn ysgafn gyda thywel i sychu, yn hytrach na rhwbio, nes i'r clwyf wella'n llwyr. Gallwch wlychu'r rhwymyn ar y clwyf ar yr adeg hon, does dim angen rhoi un newydd oni bai eich bod yn teimlo'n fwy cyffyrddus gydag un.
- Dylai dynion sy'n actif yn rhywiol osgoi cyfathrach rywiol am 3-4 wythnos nes y bydd y croen yn gwella'n llwyr. Efallai y sylwch chi ar ryw faint o waedu a sensitifrwydd yn y dechrau. Os yw rhyw a chodiad yn achosi poen ichi, gall fod angen ichi aros ychydig mwy i bethau wella.
Os yw'r anesmwythder/gwaedu'n parhau, dylech ffonio'r ysbyty neu weld eich meddyg teulu.
- Gallwch yrru pan fyddwch yn teimlo'n gyffyrddus.
- Gallwch fynd yn ôl i'r gwaith pan fyddwch yn teimlo'n gyffyrddus, fel arfer tua wythnos. Os yw eich gwaith yn golygu codi pwysau/gwaith corfforol yna mae'n bosib y bydd angen mwy o amser o'r gwaith. Trafodwch hyn â'ch nyrs/meddyg cyn i chi gael eich rhyddhau.
- Os byddwch yn datblygu tymheredd neu'n teimlo'n sâl, os yw'r clwyf yn troi'n goch, yn dyner, neu'n boeth wrth gyffwrdd ag e, neu hylif/crawn yn dod ohono, cysylltwch â'r ward neu eich meddyg i gael cyngor.

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon, mae rhifau cyswllt y wardiau a'r nyrsys Wroleg isod:-

Wardiau Wroleg:

D5 Gorllewin:- 01633 – 234040 / 234041 (24 awr)

D 5 Dwyrain: - 01633 – 234104 (24 awr)

Ward Wroleg Dydd:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 656378 / 656377

Llun – Gwener, oriau swyddfa

Adran Gleifion Wroleg Allanol:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 234979

Llun – Gwener, oriau swyddfa

Stef Young, Ymarferydd Nyrsio Cyn-derbyn ar:-

Rhif Ffôn: - 01633 – 234533

Llun – Gwener, oriau swyddfa

Cyfeiriadau:

British Association of Urological Surgeons (BAUS) Limited (June 2017) Information about your procedure-Circumcision

Tanagho E A McAninch J W 2003. Smiths General Urology

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**